**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL**

17 Ionawr 2001
Amser: 9.30am
Lleoliad: Ystafell Bwyllgor 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Teitl: PENODIADAU CYHOEDDUS: ASESWYR ANNIBYNNOL**

**Pwrpas**

1. Ystyried trefniadau'r dyfodol ar gyfer Aseswyr Annibynnol.

**Argymhellion**

2. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud cais am argymhellion manwl ar y broses o ddisodli corff cyfredol yr Aseswyr Annibynnol â rhestr ddiwygiedig o unigolion gaiff eu dethol a'u cynnal yn annibynnol ar y Cynulliad

3. Argymhellir y dylid gweithredu fel a ganlyn:

- Os penodir Comisiynydd ar wahân ar gyfer Cymru – trosglwyddo'r gwaith dydd-i-ddydd o reoli cofrestr yr Asesydd Annibynnol i Swyddfa Comisiynydd Cymru, unwaith y penodir y person hwnnw.
- Yn y cyfamser, yr Uned Benodiadau Cyhoeddus i wneud y trefniadau a ganlyn:
- chwilio am ymgeiswyr (ar sail manyleb swydd a manyleb person penodol yn unol â chanllawiau cyffredinol sy'n cael eu paratoi gan Swyddfa Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus – SCPC) o ystod mor eang â phosibl, drwy:
- chwilio am ffyrdd o gyrraedd ymgeiswyr mewn dulliau dyfeisgar fel y rhai a awgrymwyd gan Wendy Morgan yn ei hadroddiad diweddar ar Benodiadau Cyhoeddus; hysbysebu yn y cyfryngau cenedlaethol a rhanbarthol;
- defnyddio'r cyfryngau mewn ffyrdd gwahanol (e.e. straeon newyddion);
- gwahodd ystod eang o gyrff cyhoeddus a chynrychioliadol i gynnig enwebiadau;
- chwilota drwy gronfa ddata penodiadau cyhoeddus y Cynulliad.
- ysgrifennu at yr Aseswyr Annibynnol presennol i'w hysbysu fod trefniadau newydd ar y gweill.

Gofynnir i'r Aseswyr Annibynnol presennol barhau i wasanaethu tan y gwneir y penodiadau newydd, ond fe'u gwahoddir i ail-ymgeisio (fe'u detholir ar yr un sail ag ymgeiswyr newydd) a byddant yn dilyn hyfforddiant cynefino ochr yn ochr â'r aseswyr newydd.

- gweinyddu'r 'ymarfer penodi' yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus (y canllawiau'n cael eu diwygio ar hyn o bryd).
- Dylid ystyried mater tâl cydnabyddiaeth i Aseswyr Annibynnol ar wahân a chyn hysbysebu'r swyddi.
- Argymhellir y dylid penodi 50 Asesydd Annibynnol i gyd, gydag o leiaf 20% o'r rheiny yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r ffigwr hwn yn llai na chyfanswm presennol yr Aseswyr Annibynnol (70), ond byddem yn argymell defnyddio'r Aseswyr yn amlach (yn hytrach na'u cyfyngu i dri ymarfer penodi) gan y byddent yn fwy amlwg annibynnol ar y Cynulliad.
- Argymhellwn y dylid penodi hanner yr Aseswyr Annibynnol am gyfnod o ddwy flynedd a'r hanner arall am bedair blynedd i gychwyn (i ganiatáu ailbenodi fesul cam).
- Argymhellwn y dylai'r broses ddethol gynnwys cynrychiolwyr o'r cyrff cydraddoldeb statudol, SCPC a'r Cynulliad. Byddai aseswyr yn cael eu penodi unwaith y byddent wedi cwblhau'r broses ddethol yn llwyddiannus ac ni fyddai gofyn iddynt wasanaethau tan eu bod wedi cwblhau eu hyfforddiant cynefino.
- Yn ogystal â'r hyfforddiant cynefino gorfodol, byddai'r rhestr newydd o Aseswyr Annibynnol yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn hyfforddiant ar faterion recriwtio a Chyfle Cyfartal. Byddai rhaglen hyfforddi barhaus yn cael ei sefydlu mewn cysylltiad ag SCPC.
- Byddai rhestr ganolog newydd Cymru, yn ystod y cyfnod interim hwn, neu os na fyddai Comisiynydd ar wahân yn cael ei benodi yng Nghymru, yn cael ei chynnal a'i rhedeg gan SCPC, a'i chyllido gan y Cynulliad.
- Hwyrach y byddai'r rhestr newydd yn gweithredu'n gylchynol – gydag Asesydd yn cael ei ddethol i wasanaethu ar ymarferiad penodol pan mai'r Asesydd hwnnw yw'r nesaf ar y rhestr sydd heb gymryd rhan yn ddiweddar mewn ymarferiad. (Os gwneir cais am Asesydd sy'n siarad Cymraeg, yna bydd yr Asesydd nesaf sy'n siaradwr Cymraeg yn cael ei ddethol). Yna byddai enw'r Asesydd yn mynd i waelod y rhestr ac ni fyddai gofyn iddo/iddi wasanaethu eto tan i'w dro/thro gyrraedd eto. Ar ddechrau pob ymarferiad newydd rhoddir amserlen i Aseswyr a syniad o'r ymrwymiad amser a ddisgwylir ganddynt.

**Amseru**

4. Cynigir hysbysebu/gwahodd enwebiadau ym mis Mawrth 2001 a phenodi yn ystod Haf 2001.

**Cefndir**

5. Ar hyn o bryd, mae gan Uned Penodiadau Cyhoeddus y Cynulliad, mewn cysylltiad ag Uned Penodiadau Cyhoeddus yr NHS, restr o 70 o unigolion sy'n gweithredu fel Aseswyr Annibynnol ar gyfer yr holl ymarferiadau. Penodir y rhain er mwyn sicrhau bod yr holl ymarferiadau yn cael eu cynnal yn gywir, ac er mwyn sicrhau bod saith egwyddor Cod Ymarfer y Comisiynydd yn cael eu harddel.

6. Mae'r Pwyllgor wedi mynegi pryder ynglyn â dethol Aseswyr Annibynnol, ac a oes modd ystyried yr Aseswyr a benodir gan y Cynulliad fel rhai sy'n wirioneddol annibynnol. Ystyriwyd hefyd nad oedd y rhestr gyfredol yn gynrychioliadol o amrywiaeth poblogaeth Cymru.

7. Mynegodd y Pwyllgor y byddai'n well ganddynt sicrhau annibyniaeth eu haseswyr annibynnol drwy ofyn i SCPC i'w penodi. Pan ymgynghorwyd ag SCPC ar y mater hwn, eglurodd na fyddai'r rhestr ganolog fechan y bwriadant ei sefydlu, fel sy'n arfaethedig ar hyn o bryd, yn gallu ymdopi â holl raglen benodiadau Cymru. At hyn, er bod y cwestiwn o gael Comisiynydd ar wahân ar gyfer Cymru yn cael ei drafod, roeddynt o'r farn y byddai'n gall peidio newid y fframweithiau a'r peirianweithiau o fewn y Cynulliad Cenedlaethol. Ar sail yr ystyriaethau hyn, awgrymodd SCPC y dylid sefydlu rhestr SCPC ganolog ar wahân ar gyfer Cymru, a mynegodd SCPC eu parodrwydd mewn egwyddor i'w sefydlu. Gellid gweithredu'r rhestr hon orau o Gymru a byddai'n sicrhau dilyniant llyfn pe penodir Comisiynydd ar wahân ar gyfer Cymru yn y dyfodol.

**Y Sefyllfa yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban**

8. Mae SCPC ar hyn o bryd yn cynnal arolwg o rôl Aseswyr Annibynnol yn Lloegr, a bwriedir cwblhau'r arolwg ym mis Ebrill 2001. Yn Lloegr, mae gan adrannau unigol ar hyn o bryd restrau o Aseswyr Annibynnol. Mae SCPC wedi cytuno y bydd rhestrau yn Lloegr yn parhau o fewn adrannau unigol, yn amodol ar ystod o fesurau sicrwydd ansawdd wedi'u gosod gan SCPC. Fodd bynnag, bydd rhestr ganolog hefyd yn cael ei sefydlu a'i rhedeg gan SCPC, a bydd modd i adrannau llai yn Whitehall ei defnyddio. Bydd pob Asesydd Annibynnol yn cael ei hyfforddi gan SCPC, a bydd yn parhau i adrodd i'r Comisiynydd.

9. Yng Ngogledd Iwerddon lle mae gan adrannau unigol hefyd restrau o aseswyr annibynnol, sefydlwyd gweithgor, yn cynnwys cynrychiolwyr SCPC ac aseswyr, i adolygu rôl yr aseswyr hyn. Mae nifer o gynigion yn cael eu pwyso a'u mesur a bydd argymhellion yn cael eu rhoi gerbron adrannau i'w hystyried maes o law.

10. Yn yr Alban, bydd cyfnod penodiad llawer o'r Aseswyr Annibynnol yn dod i ben ym mis Mehefin. Tra bod mater Comisiynydd ar wahân ar gyfer yr Alban yn cael ei drafod, mae Senedd yr Alban wedi gweithredu dros dro ac wedi gofyn i'r holl bleidiau gwleidyddol enwebu ymgeiswyr o grwpiau sy'n cael eu tan-gynrychioli (h.y. menywod, lleiafrifoedd ethnig, a phobl ag anableddau) i'w penodi fel aseswyr dros dro am gyfnod o flwyddyn. Penodir yr Aseswyr hyn gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am Benodiadau Cyhoeddus yn yr Alban. Os penodir Comisiynydd ar wahân ar gyfer yr Alban, cynhelir ymarfer penodi llawn i benodi Aseswyr Annibynnol newydd. Bydd yr aseswyr yn uniongyrchol atebol i Gomisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yr Alban, a Swyddfa

Comisiynydd yr Alban fydd yng ngofal rhestr yr Aseswyr.

**Camau i'r Pwyllgor eu cymryd**

11. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cynigion ym mharagraff 3.